GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION PUMED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 17EG HYDREF 2006

LLEOLIAD: ESIS – TŶ DYSGU, TREFFOREST, ger CAERDYDD.

Yn Bresennol:

Mal Davies (Cadeirydd)	Gareth Jones
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Goronwy Jones
Frank Bonello	Nichola Jones
Ron Carrotte	Valerie Merriman
Elwyn Davies	Suzanne Nantcurvis
Sheila Drayton	Rosemond Nelson
Michael Edwards	Gareth Roberts
Ian Guy	Jane Setchfield
Anthony Hughes	Jacky Tonge
Angela Jardine	Gwen Williams
Sue Jenkins	Peter Williams

Ymddiheuriadau:
Jean Campion, Tim Cox, Richard Parry Jones.

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bumed cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso hefyd i'r sawl a oedd yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus.

1.2 Aeth y Cadeirydd ymlaen i hysbysu'r aelodau iddo dderbyn gair bod Jean Campion, un o aelodau'r Cyngor, yn dioddef o salwch difrifol. Roedd dymuniadau gorau'r Cyngor wedi'u cyfleu i'w gŵr a'i theulu.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y llythyr cyntaf gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ymateb i gyngor y Cyngor ar ei swyddogaethau disgyblu. Roedd y Gweinidog wedi nodi penderfyniad y Cyngor i beidio â gofyn ar yr adeg hon am gael derbyn pob achos o gamymddygiad proffesiynol oherwydd y ddeddfwriaeth a oedd ar fin ymddangos mewn perthynas ag Amddiffyn Grwpiau Hawdd eu Niweidio.

3.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at yr ail lythyr gan Jane Davison a oedd yn ymateb i ail haen cyngor y Cyngor ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd y llythyr yn nodi na allai'r Gweinidog gytuno ar hyn o bryd i'r argymhellion penodol, ond y byddai'n aros i'r Cyngor roi cyflwyniad i'r Pwyllgor ADGOS ar 9fed Tachwedd cyn ymateb.

3.3 Roedd trydydd llythyr y Gweinidog yn ymwneud â llythyr y Cyngor a anfonwyd ym mis Gorffennaf 2006 mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a ffioedd cofrestru dangosol ar gyfer 2007-08 a 2008-09. Roedd y Gweinidog wedi ymateb gyda datganiad dros dro yn gysylltiedig ag ystyriaethau yn y dyfodol ynghylch y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Gorffennaf 2006

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 16.6: Adeiladau, Cronfeydd Wrth Gefn a'r Ffi Gofrestru Ddangosol: Cynghorwyd yr aelodau gan y Cadeirydd bod prydles newydd wedi'i llofnodi ar gyfer lle ychwanegol ar ail lawr Tŷ Southgate a bod swyddogion bellach wedi ymgartrefu wrth eu gwaith yn y lle newydd.

4.3 Cofnod 16.8: Adnoddau ychwanegol ar gyfer Safonau Proffesiynol: Cynghorwyd yr aelodau bod y Prif Weithredwr wedi penderfynu recriwtio Swyddog Gweithredol ers y cyfarfod diwethaf i gefnogi'r llwyth gwaith ym maes Safonau Proffesiynol.

4.4 Cofnod 19.1: Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar Grwpiau Allanol - Grŵp Llywio Cyffredinol Llwybrau Dysgu 14-19: Cynghorwyd yr aelodau bod y Grŵp Llywio wedi cwblhau ei waith. Byddai'r prosiect yn cael ei symud yn ei flaen gan swyddogion y Cynulliad.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (17 to 22)

5.1 Nododd un aelod y byddai'n dymuno nodi sylw ar un pwynt ar eitem 19 ar yr agenda: *Ymateb CyngACC i Adroddiad Furlong ar Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.*

6. Cofnodion drafft y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 21ain Medi 2006

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr, gan dynnu sylw'r aelodau at bedwar prif bwynt nad oeddent wedi'u cwmpasu yn agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 7: System ar gyfer ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd: Nododd wrth yr aelodau fod y Pwyllgor Gweithredol wedi cytuno i'r cynllun a oedd wedi'i newid ychydig a oedd yn gofyn i'r Swyddog Etholiadau gymryd gwyliau ysgol i ystyriaeth wrth osod amserlen ar gyfer etholiadau a hefyd i nodi cyfnodau amser penodol ar gyfer pob rhan o broses yr etholiad.

6.3 Cofnod 8: Y Ddarlith Flynyddol: Nododd y Prif Weithredwr fod y ddarlith a draddodwyd gan y Farwnes Warnock wedi bod yn llwyddiant, gyda 320 o fynychwyr yn cynnwys nifer fawr o athrawon anghenion arbennig. Roedd gwahoddiad wedi'i anfon at Rowan Williams ar gyfer darlith 2007 neu 2008 ac, os na fyddai'r cais hwn yn llwyddiannus, byddai siaradwyr eraill yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Cynghorodd yr aelodau hefyd y bu trafodaeth anffurfiol gydag aelodau'r gogledd ynghylch awgrymu darlith ar wahân ar gyfer Gogledd Cymru ar ôl i Gonfensiwn Addysg Gogledd Cymru gael ei ganslo. Y bwriad yn wreiddiol oedd ategu darlith CyngACC iddo. Roedd grŵp bach o aelodau wedi dod i'r casgliad y gellid cysylltu â Chyfarwyddwyr Addysg y gogledd am eu barn, ac y gallai sefydlu sesiwn holi ac ateb gyda phanel o arbenigwyr addysg ddenu athrawon i ddigwyddiad yn y gogledd. Byddai swyddogion yn adrodd ar gynnydd yn hyn o beth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ond roedd croeso i aelodau gynnig syniadau pellach.

6.4 Holodd un aelod a wnaed dadansoddiad o gefndir y mynychwyr. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai hyn yn cael ei wneud.

6.5 Ychwanegodd aelod arall fod amseru'r digwyddiad yn hanfodol ac y gallai athrawon o Ogledd Cymru gael eu galluogi i fynychu digwyddiad yn y de pe na bai'n rhaid iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar y diwrnod canlynol.

6.6 Estynnwyd llongyfarchiadau a diolchiadau'r aelodau i swyddogion a oedd wedi trefnu Darlith Flynyddol 2006.

6.7 Cofnod 9: Calendr cyfarfodydd: Cynghorwyd yr aelodau bod Calendr cyfarfodydd 2007 wedi'i gymeradwyo a gofynnwyd iddynt nodi'r dyddiad ar gyfer yr hyfforddiant gloywi disgyblu blynyddol, ar 18fed Mai 2007, am nad oedd unrhyw ddyddiad amgen wedi'i gynllunio.

6.8 Holodd yr aelodau a ellid cynhyrchu calendr i gyd-fynd â'r flwyddyn academaidd, h.y. o fis Medi tan fis Gorffennaf, yn hytrach na'r flwyddyn galendr. Gwelwyd budd yr awgrym hwn a byddai trefniadau'n cael eu gwneud.

6.9 Cofnod 10: Cyfarfod anffurfiol gyda'r Gweinidog: Adroddodd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion y Cynulliad i drafod, yn dilyn cais gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am gyfarfod blynyddol mwy 'anffurfiol' gydag aelodau. Byddai adroddiad ar gael i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr 2006.

6.10 Cofnod 2.5: Materion cyllid ac adeiladau: Cwestiynodd aelod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cofnod hwn ac yng nghofnod 16.3 o gofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf a gynhaliwyd 13eg Gorffennaf 2006, mewn perthynas â'r ffi gofrestru, lle roedd yn ymddangos eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd. Eglurodd y Prif Weithredwr fod cofnod 16.3 yn cyfeirio at y ffaith nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng sefydlu Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn ac unrhyw gynnydd i'r ffi gofrestru; roedd cofnod 2.5 yn cyfeirio at drosglwyddo cyfran o'r costau adeiladau uwch i Lywodraeth y Cynulliad o ganlyniad i'r gwaith ychwanegol a wneir yn sgil gweinyddu'r rhaglen Gyllido Sefydlu/DPC.

6.11 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

6.12 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

7. Cofnodion drafft y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 21ain Medi 2006.

7.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn ac esboniodd y byddai pob mater yn cael ei drafod yn agenda'r cyfarfod.

7.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8. Cofnodion drafft y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 26ain Medi 2006

8.1 Cyflwynodd Frank Bonello y cofnodion hyn yn fras, gan hysbysu'r aelodau y byddai pob mater yn cael ei drafod yn agenda'r cyfarfod.

8.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

9. Addasrwydd i gofrestru (CYNGACC 47/06)

9.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*). Darparwyd adroddiad ychwanegol i'r aelodau a roddodd fanylion y cyflwyniadau am Ddatgeliad Manwl i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cyngor ar 16eg Hydref 2006.

9.2 Ers cyflwyno'r gofynion newydd ar 31ain Mai 2006, roedd y Cyngor wedi cofrestru tua 1400 o athrawon newydd gymhwyso a thros 160 o athrawon profiadol. Ym mhob achos, roedd gwiriadau cofnodion troseddol wedi'u cynnal.

9.3 Rhoddodd yr adroddiad hwn ddiweddariad i'r aelodau am gynnydd gyda gwaith newydd y Cyngor a gwahoddodd yr aelodau i ystyried a chymeradwyo, os yn briodol, y gweithdrefnau diwygiedig mewn perthynas ag ymgeiswyr a oedd wedi'u geni neu a oedd wedi treulio amser dramor; dogfen *Addasrwydd i fod yn Athro Cofrestredig – Gweithdrefnau a Rheolau;* rhestr estynedig o faterion achosion y gallai swyddogion ymdrin â hwy, yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru.

9.4 Roedd yr aelodau yn fodlon i'r gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer ymgeiswyr o dramor gael eu gweithredu ar unwaith.

9.5 Cwestiynodd un aelod un pwynt ar dudalen 6 y ddogfen *Addasrwydd i fod yn Athro Cofrestredig – Gweithdrefnau a Rheolau,* a oedd yn cyfeirio at rybudd. Roedd y Pwyllgor Cofrestru wedi trafod a oedd yr esboniad wedi'i eirio'n ddigon clir. Eglurodd Hayden Llewellyn fod cyngor cyfreithiol wedi'i gael ar y pwynt ac y penderfynwyd cadw'r geiriad a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Daeth yr aelodau i'r casgliad y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol pellach.

9.6 Codwyd mater ynghylch cyrchu cofnodion troseddol nad oeddent yn perthyn i sifiliaid (milwrol), yn y DU a thramor. Ymatebodd Hayden Llewellyn y byddid yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar y mater hwn hefyd.

9.7 Holodd aelod a fu'n rhan o banel y Pwyllgor cyntaf i gynnal gwrandawiad Addasrwydd a fyddai modd gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ddiweddarach i'r ddogfen *Addasrwydd i fod yn Athro Cofrestredig – Gweithdrefnau a Rheolau* wedi iddi gael ei chymeradwyo. Rhoddwyd sicrwydd iddi gan y Cadeirydd y byddai manylion dyfnach y gweithdrefnau'n cael eu trafod yn ddiweddarach yn ystod sesiwn breifat y Cyngor yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

9.8 Trafododd yr aelodau Atodiad D a roddodd fanylion y canllawiau i swyddogion wrth brosesu ceisiadau yn ymwneud â throseddau cymharol fach. Byddai hyn yn hwyluso'r dasg o brosesu achosion nad oedd y Prif Weithredwr neu swyddogion awdurdodedig, gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru, yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor Ymchwilio.

9.9 Roedd un aelod yn pryderu y gallai fod cryn wahaniaeth rhwng achosion unigol a allai ddisgyn o dan unrhyw un o'r enghreifftiau a restrwyd ac y byddai'n ddoeth diwygio geiriad y canllawiau o 'y drosedd' i 'natur y drosedd', er mwyn dangos y byddai graddau'r difrifoldeb yn cael eu hystyried. Aeth yr aelodau ymlaen i ofyn am sicrwydd pellach y câi achosion sy'n ymddangos yn gymharol fach ar yr olwg gyntaf oherwydd bod y troseddau wedi'u nodi ar y rhestr enghreifftiau eu cyfeirio am ymchwiliadau pellach os byddai'r Prif Weithredwr neu swyddogion awdurdodedig o'r farn bod eu natur yn mynnu ymchwiliad pellach. Gofynnwyd hefyd am sicrwydd pellach o'r bwriad i fabwysiadu ymagwedd ochelgar. Rhoddwyd y sicrwydd hwn gan swyddogion a Chadeirydd y Pwyllgor Cofrestru yn ddibetrus a chynghorwyd bod cyngor cyfreithiol eisoes wedi'i ddarparu ar y ddogfen hon.

9.10 Terfynodd yr aelodau eu trafodaeth ar Atodiad D gyda nifer o bwyntiau, sef: nid rhestr derfynol gyflawn oedd y rhestr enghreifftiol; byddai o gymorth petai canllawiau ysgrifenedig ar gael i swyddogion gael cyfeirio atynt; ac y dylid ystyried cyfnod yr amser ers i drosedd gael ei chyflawni.

9.10 Yn olaf, trafodwyd y papur a gyflwynwyd a roddodd fanylion y sefyllfa gyfredol ynghylch cyflwyniadau Datgeliadau Manwl i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Er y barnwyd bod y broses wedi bod yn hynod lwyddiannus ar y cyfan, nodwyd nad oedd 4 cais wedi'u dychwelyd yn dilyn 19 wythnos o oedi. Ymatebodd Hayden Llewellyn drwy ddweud bod swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r SCT ac er mai nod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth oedd i ymateb i 90% o geisiadau o fewn 4 wythnos, nid oedd unrhyw safon wedi'i gosod ar gyfer y 10% sy'n weddill. Er bod swyddogion wedi mynd ar drywydd y 4 achos hwn, roedd y ceisiadau gyda'r heddluoedd priodol ar hyn o bryd ar gyfer gwiriadau. Terfynodd drwy ddweud nad oedd athrawon wedi'u cofrestru yn yr achosion lle nad oedd gwiriadau SCT wedi'u derbyn.

10. Cyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CYNGACC 48/06)

10.1 Ers cyflwyno gwaith newydd y Cyngor mewn perthynas â gweinyddu cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ers 1af Medi 2006, rhoddodd y papur hwn ddiweddariad i'r aelodau o gynnydd cynnar y gwaith newydd.

10.2 Cyflwynwyd y papur gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), gan adrodd bod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn yn adlewyrchu gweithrediad llwyddiannus rôl newydd y Cyngor, er gwaethaf y ffaith bod ysgolion wedi wynebu terfyn amser tynn er mwyn cyflwyno'u ceisiadau am gyllid. Roedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu ers cyhoeddi'r papurau i aelodau ac erbyn hyn roeddent fel a ganlyn: 1200 ar gyfer Sefydlu; 900 ar gyfer DPC Blwyddyn 1 ac ychydig o dan 700 ar gyfer DPC Blwyddyn 2. Roedd hyn wedi creu cryn lwyth gwaith prosesu i swyddogion a byddai aelod ychwanegol o staff yn cael ei recriwtio'n fuan yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

10.3 Aeth ymlaen i gynghori'r aelodau bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ceisiadau wedi'i throsglwyddo i'r AALlau fel y cytunwyd yn flaenorol, ac y byddai adborth cynnar ar gynnydd yn cael ei adrodd i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyfarfod ar 18fed Hydref 2006. Yna gwahoddwyd yr aelodau i gynnig sylwadau ar yr adroddiad.

10.4 Codwyd y materion canlynol: y posibilrwydd y dylai'r Cyngor ystyried darparu canllawiau pellach er mwyn lleihau nifer y ffurflenni a ddychwelir i ymgeiswyr nad oeddent yn bodloni meini prawf a phryderon gan ysgolion, yn arbennig yn y sector cynradd, ynghylch derbyn arian ôl-weithredol am y gallai hyn beri trafferthion ar gyfer cyllidebau ysgol ac o ganlyniad gallai beri i athrawon beidio â chael eu denu i geisio am gyllid. Ymatebodd Hayden Llewellyn drwy ddweud bod gwaith agos ar y gweill gydag ysgolion ac athrawon er mwyn datrys unrhyw anawsterau gyda cheisiadau. Ailnododd yr aelodau eu pryderon ynghylch anawsterau rhai ysgolion o ran hwyluso hyfforddiant cyn cael cyllid ôl-weithredol a daeth i'r casgliad y dylai trafodaethau gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ganolbwyntio ar argymhelliad i roi hyblygrwydd cyllido i ysgolion mewn caledi. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r mater yn cael ei godi eto gyda'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn esgor ar drafodaethau ynghylch amseru cyllid mewn achosion o galedi, er bod hyn wedi bod yn aflwyddiannus o'r blaen, ac mai bwriad y trefniadau newydd oedd sicrhau bod cyllid yn cael ei wario'n briodol ar athrawon newydd.

11. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol – adroddiad cynnydd (CYNGACC 49/06)

11.1 Rhoddodd yr adroddiad hwn fanylion y sefyllfa ddiweddaraf a dadansoddiadau o waith y Cyngor mewn perthynas â gweinyddu Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol 2006-07 ar gyfer athrawon yng Nghymru.

11.2 Dyrannwyd £2.5 miliwn i'r Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2006-07 yn rhan o linell wariant dair blynedd. Mae athrawon yn cael budd rhaglen gyllido gyson a phroses ymgeisio sy'n galluogi unigolion i gyflwyno ceisiadau'n gynharach nag yn y dyfodol, gan gynnwys cyn dechrau blwyddyn ariannol.

11.3 Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) amlinelliad bras o'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd dyraniad y cyllid yn £1.8 miliwn gan adlewyrchu'r cynnydd ers cyflwyno'r adroddiad i'r aelodau. Ychwanegodd y byddai trafodaethau gyda swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys gofyn i gyllid ychwanegol gael ei ddyrannu.

11.4 Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r adroddiad er gwybodaeth a gwahoddwyd eu sylwadau mewn perthynas â'r dadansoddiadau a roddwyd yn yr Atodiadau.

11.5 Codwyd cwestiynau cyffredinol ynghylch lefel y diddordeb ar gyfer y bedwaredd seminar flynyddol ar gyfer AALlau, SAUau a buddiolwyr eraill ac am ddadansoddiad o'r tueddiadau newidiol dros y 5 mlynedd ers i'r Cyngor ddechrau gweinyddu'r rhaglen. Ymatebodd Hayden Llewellyn drwy ddweud yn gyntaf y byddai pob un heblaw un o'r AALlau yn cael ei gynrychioli, yn ogystal â phob sefydliad AU, gan roi cyfanswm o 40 o gynadleddwyr; ac yn ail, y byddai graff yn cael ei ddarparu i'r aelodau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2007, er bod y dadansoddiad 5 mlynedd wedi'i ddarparu yn yr adroddiad.

11.6 Roedd yn braf gan y Dirprwy Gadeirydd nodi bod 86% o athrawon wedi cael y broses ymgeisio'n 'hawdd' neu'n 'hawdd iawn' yn sgil gwerthusiad cyfranogwyr y rhaglen gyllido (Atodiad D); bod 96% wedi nodi bod eu datblygiad proffesiynol parhaus wedi gwella'u gwybodaeth broffesiynol, eu sgiliau a'u harbenigedd; mai'r cysylltiad rhwng DPP a chynlluniau gweithredu personol athrawon oedd y rheswm dros ymgeisio a bod 79% wedi nodi na fyddai eu hyfforddiant wedi digwydd oni bai am y rhaglen. Fodd bynnag, nododd rhyw draean o'r athrawon a gymerodd ran eu bod yn ystyried y bydau eu datblygiad proffesiynol yn datblygu yn y dyfodol drwy gyfrwng cyrsiau. Barnwyd y dylid monitro'r duedd hon.

11.7 Nododd un aelod y byddai'n bwysig ystyried adborth athrawon, er yn croesawu'r canlyniadau cadarnhaol, er mwyn galluogi'r Cyngor i wella'r broses ymgeisio ymhellach, yn arbennig ar gyfer y rheiny a oedd yn cyflwyno ceisiadau cymharol fach.

12. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (CYNGACC 50/06)

12.1 Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod cyngor ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (Haen 2) wedi'i ddarparu i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Gorffennaf ac aeth ymlaen i adrodd bod y cyngor cyhoeddedig, er nad oedd wedi'i ddosbarthu hyd yn hyn i athrawon, ar gael i'r aelodau a'r cyhoedd fynd â chopi gyda hwy.

12.2 Roedd y papur hwn yn darparu nifer o ddatblygiadau yng ngwaith y Cyngor wrth sefydlu fframwaith cydlynus ar gyfer cydnabyddiaeth ac achrediad proffesiynol athrawon yng Nghymru, sef: diweddariad ar ddrafft diwygiedig y safonau ar gyfer Athro Siartredig; adroddiad cynnydd cynnar ar beilota'r rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru a chynnydd ar y gwaith a wnaed gan y gweithlu ar gyfer Haenau 3 a 4.

12.3 Wrth gyflwyno'r cofnodion hyn, tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau yn gyntaf at fersiwn ymgynghori arfaethedig y Safonau drafft ar gyfer Athro Siartredig a'r holiadur yn ogystal â'r broses a'r amserlen ymgynghori arfaethedig, gan groesawu sylwadau a chwestiynau.

12.4 Cafwyd trafodaeth am ddrafft diwygiedig y safonau Athro Siartredig ac roedd aelodau'n cytuno bod y ddogfen wedi'i gwella'n sylweddol. Awgrymwyd nifer o newidiadau, sef y dylai'r term *sgiliau* gynnwys y 3 maes allweddol; dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r term 'eiriolaeth' a sicrhau cysondeb o ran arddull drwy'r datganiad yn trafod y meysydd allweddol.

12.5 Yna aeth yr aelodau ymlaen i roi eu caniatâd i'r ddogfen ymgynghori arfaethedig a'r amserlen gael eu mabwysiadu.

12.6 Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i ofyn i'r aelodau gytuno i ddirprwyo i'r Pwyllgor Polisi y dasg o gytuno ar y fanyleb ofynnol ar gyfer peilota rhaglen yr Athro Siartredig drwy'r llwybr addysgu. Byddai hyn yn dilyn cyflwyniad y Cyngor gerbron y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 9fed Tachwedd 2006 a'r gobaith oedd y byddai'r Gweinidog yn ymateb bryd hynny. Roedd yr aelodau yn fodlon ar y cynnig hwn.

12.7 Yna holodd un aelod a fyddai athro/athrawes a oedd wedi treialu'r peilot ar gyfer Athro Siartredig, gan elwa ar y ffaith bod athro/athrawes gyflenwi wedi gwasanaethu yn ei le dros dro, yn cael gwell profiad datblygu o'i gymharu ag athro/athrawes a oedd yn rhan o'r cynllun yn dilyn y peilot. Aeth ymlaen i amlygu pwysigrwydd y seminarau ymgynghori a oedd eisoes wedi'u bwriadu a fyddai'n rhoi cyfle i athrawon gynnig eu sylwadau am y peilot. Nododd y Cadeirydd y mater a godwyd a dywedodd y byddai'r seminarau'n cael eu cynnwys yn yr amserlen.

12.8 Yn olaf, rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar gynnydd gwaith y Cyngor wrth ddatblygu haenau 3 a 4 y fframwaith. Atgoffwyd yr aelodau o gyfansoddiad y Tasglu, a oedd yn rhychwantu cefndir eang o athrawon, aelodau'r Cyngor, enwebiadau gan undebau athrawon, AALlau, SAUau yn ogystal ag Estyn a'r Cynulliad. Roedd y Tasglu a oedd wedi'i ailymgynnull wedi cyfarfod ar 28ain a 29ain Medi 2006. Bu cryn dipyn o unfrydedd ar bynciau *Cofnodi a hunan-adfyfyrio* a *Sicrhau Ansawdd,* gyda thrafodaethau'n ymwneud â phortffolios athrawon a'u pwrpas; codau a chofrestrau darparwyr rhaglenni. Byddai nodyn o'r cyfarfod ar gael i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Chwefror 2007. Soniodd y Prif Weithredwr yn fras wrth gloi bod yr amserlen i'r Tasglu gwblhau ei waith wedi'i hymestyn tan fis Mawrth 2007 i alluogi cyflwyno'r cyngor a fyddai'n cael ei greu yn sgil eu hymdrechion i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Medi 2007.

12.9 Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a gofynnwyd am eglurhad o weithrediad y Cyngor parthed dod yn Gorff Siartredig. Nododd y Prif Weithredwr y byddai cais anffurfiol yn cael ei wneud i'r Cyfrin Gyngor, yn amodol ar ymateb y Gweinidog.

13. Adolygu strategaeth llwyth gwaith CyngACC (CYNGACC 51/06)

13.1 Gwahoddodd Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) yr aelodau i ystyried a thrafod strategaeth y Cyngor ar lwyth gwaith athrawon a biwrocratiaeth, o ystyried newidiadau diweddar ym maes addysg ac yn sgil sefydlu'r Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP) a oedd wedi derbyn y dasg o fonitro a chynghori ar lwyth gwaith athrawon.

13.2 Roedd y Cyngor wedi cytuno ar gynllun strategaeth wyth pwynt yn 2002 i amlygu llwyth gwaith athrawon a biwrocratiaeth ormodol gyda'r nod o gael dylanwad ar fuddiolwyr allweddol. Awgrymwyd y dylid adolygu'r strategaeth yng ngoleuni bodolaeth SWAP a'r trefniadau cytundebol newydd i athrawon.

13.3 Cafwyd trafodaeth lle cydnabu'r aelodau bwysigrwydd llais y Cyngor yn y maes hwn fel corff annibynnol; yr angen parhaus i leisio pryderon athrawon ar y mater hwn; ac y dylai fod yn nod i'r Cyngor sicrhau nad yw llwyth gwaith yn rhwystr i'r proffesiwn. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid cadw strategaeth y Cyngor ond y dylid ei hadolygu ac y dylid trosglwyddo'r dasg hon i'r Pwyllgor Polisi.

14. Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu diwygiedig arfaethedig (CYNGACC 52/06)

14.1 Roedd yr aelodau wedi trafod fersiwn wedi'i diweddaru o Weithdrefnau a Rheolau Disgyblu'r Cyngor mewn cyfarfod blaenorol ym mis Gorffennaf 2006 ac, yn dilyn datblygiad pellach gan y Pwyllgor Cofrestru ym mis Medi, cyflwynwyd drafft terfynol gerbron i'r aelodau gael ei gymeradwyo.

14.2 Cyflwynwyd y papur hwn yn fras gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) a chroesawodd sylwadau terfynol yr aelodau. Byddai trafodaeth bellach ar elfennau ymarferol gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor yn digwydd yn y sesiwn breifat yn ddiweddarach.

14.3 O gofio hyn, cododd un aelod y cwestiwn a oedd anghysondeb rhwng y ffaith bod athro/athrawes yn gallu arfer ei hawl i apelio i'r Uchel Lys ar ôl i'r Cyngor osod sancsiwn, ond nad oedd yr un gallu wedi'i amlinellu yn y ddogfen, i athro/athrawes a gafwyd yn euog o gamymddygiad proffesiynol, ond lle na osodwyd sancsiwn. Er y crynhodd y Cadeirydd drwy ddweud ei bod yn ymddangos i fwlch yn y ddogfen gael ei amlygu, esboniodd aelod arall y byddai unigolyn o'r fath yn cael yr hawl i apelio drwy Adolygiad Barnwrol. Caeodd Hayden Llewellyn y sgwrs drwy ddweud y byddid yn gofyn am gyngor cyfreithiol i sicrhau eglurder.

14.4 Cymeradwyodd yr aelodau'r ddogfen yn amodol ar gael cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r mater apelio.

15. Safbwyntiau Ewropeaidd ar gymwysterau addysgu (CYNGACC 53/06)

15.1 Cyn y cyfarfod, darparwyd i'r aelodau adroddiad SCYA, a gomisiynwyd gan Dasglu Cydnabyddiaeth Gilyddol Pum Gwlad y CyngACCau; papur y Comisiwn Ewropeaidd: *Common European Principles fôr Teacher Competencies and Qualifications* a phapur ENTEP mewn perthynas â'u rôl. Roedd papur ENTEP pellach o'r enw *What is a European Teacher?* wedi'i ddarparu.

15.2 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn adrodd ar yr adroddiad rhwng gwledydd a'r 2 bapur diweddar ar DPP athrawon a darddodd o Ewrop. Aeth ymlaen i esbonio bod ei waith yn cadeirio'r Tasglu Cydnabyddiaeth Gilyddol wedi cwmpasu ystod o faterion amlwg yn effeithio ar Gynghorau Addysgu'r DU a Gweriniaeth Iwerddon ym maes cydnabod cymwysterau. Byddai'r adroddiad a gomisiynwyd yn cael ei gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau Addysgu ar 1af Rhagfyr 2006 a'r gobaith oedd y byddai'n sbarduno trafodaethau ac ymatebion yn y priod GyngACCau a'u hadrannau llywodraeth. Gallai hyn alluogi'r Tasglu i barhau â'i waith yn y dyfodol ar ôl i gynnydd pellach gael ei wneud ar lefel gwledydd unigol.

15.3 Ychwanegodd y byddai'r wybodaeth a ddarparwyd yn y papurau o'r UE yn cael effeithiau yn y dyfodol ar gynghorau addysgu'r DU a gofynnodd i'r aelodau eu nodi ac i fod yn ymwybodol ohonynt.

15.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am yr wybodaeth a ddarparwyd ac am ei waith yn arwain y Tasglu. Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau.

15.5 Codwyd cwestiynau mewn perthynas â'r consensws am newid yn y grŵp a'r amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau o'r fath. Cynghorwyd yr aelodau y gallai fod peth amharodrwydd i newid ar ran rhai gwledydd, er bod y grŵp cyfan o'r farn bod yr wybodaeth gymharol yn ddefnyddiol, ac y byddai rhai newidiadau'n mynnu newid deddfwriaeth a fyddai'n cymryd amser.

15.6 Amlygodd un aelod y papur *Role of ENTEP* a chwestiynodd gynrychiolaeth Cymru o ran trafodaethau gydag adrannau llywodraeth. Roedd y pwynt hwn wedi'i drafod mewn cyfarfod o Brif Weithredwyr y Pum Gwlad ym mis Awst 2006 a gwnaed cynnydd ers hynny o ran sicrhau bod cysylltiadau cryfach yn cael eu sefydlu rhwng y Cynghorau Addysgu a swyddogion y priod lywodraethau i sicrhau bod darlun y DU a drosglwyddwyd i Ewrop yn ystyried yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.

15.7 Roedd yr aelodau'n gytûn bod yr wybodaeth a ddarparwyd o gryn ddiddordeb ac y gellid trafod pwyntiau penodol ymhellach yn y Pwyllgor Polisi. Roedd y cwestiwn ynghylch pa gorff ddylai achredu rhaglenni AHCA yn enghraifft o fater a oedd yn deilwng o'i drafod ymhellach.

16. Unrhyw fater arall

16.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

Eitemau er gwybodaeth:

17. Ymateb CyngACC i Adroddiad Furlong ar Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (CYNGACC 56/06)

17.1 Roedd un aelod yn dymuno nodi ei gymeradwyaeth i'r adroddiad terfynol mewn perthynas ag Adroddiad Furlong ar Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru a chroesawodd y cyfle a gafodd y Cyngor i gyflwyno ymateb mor allweddol.

Caiff cyfarfod nesaf y Cyngor ei gynnal ddydd Mercher 7fed Chwefror 2007
yng
Ngwesty'r Marriott, Abertawe